

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Dydd Iau, 22 Mai 2014

a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin, Tre Ioan am 6pm

Yn bresennol:

Jonathan Tudor (JT) - Ysgrifennydd

Yr Aelodau:

Karen Burch (KB) - Cadeirydd
Mark Hadley (MH) - Is-gadeirydd
Glyn Evans (GE)
Eric Davies (ED)
Keith Morgan (KM)
David Stacey (DS)
Caroline Evans (CE)
Rosemary Jones (RJ)
Jillie Gardiner (JG)

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion/Siaradwyr/Aelodau o'r Cyhoedd

Y Cynghorydd Deryk Cundy (DC) – Cadeirydd Pwyllgor Craffu - Cymunedau CSC
Geoff Williams (GW) - Y Cerddwyr
Rory Dickinson (RD) – Rheolwr yr Arfordir a Chefn Gwlad CSC

Ymddiheuriadau (Aelodau)

Llew Thomas (LT)
Chris Rankin (CR)

Ymddiheuriadau (Ymgynghorwyr)

Y Cynghorydd Meryl Gravell - Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adfywio a Hamdden CSC
Phil Stone - CNC
Mike Scott-Archer - FfMLI PCBB

	CAM GWEITHREDU
Eitem 1 Croeso – Estynnodd KB groeso i bawb i'r cyfarfod.	
Eitem 2 Ymddiheuriadau - Cyflwynwyd ymddiheuriadau ac fe'u cofnodwyd.	
Eitem 3 Ystyried/Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod ar 20 Chwefror 2014 Cafodd y cofnodion eu gwirio a derbyniwyd eu bod yn gywir yn amodol ar: <ul style="list-style-type: none">Dywedodd DS ei fod wedi codi mater ynghylch problemau yn Nhrwyn Wharley, Llansteffan mewn perthynas â Llwybr Arfordir Cymru.Roedd KB eisiau newid geiriad ei sylwadau ynghylch Datblygiad Gorllewin Cross Hands sydd i'w cyflwyno i JT.	KB
Eitem 4 Materion yn Codi o Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2014 <ul style="list-style-type: none">Prosiect i Gysylltu Fferm Wynt Brechfa - Roedd KB wedi cysylltu â nhw. Cyfeiriwyd y Fforwm Mynediad Lleol at ddiwyddiadau cyhoeddus a oedd eisoes wedi'u trefnu. Roeddent yn barod i fynyachu cyfarfod ym Mharc Coetir y Mynydd	

Mawr petai galw am gyfarfod ar wahân i'r Fforwm Mynediad Lleol. Anfonodd JT e-bost at aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol nad oedd wedi mynegi diddordeb ynghylch cyfarfod ar wahân.

- **Llwybr Beicio Dyffryn Aman** – Darparodd KM wybodaeth gan Celtic Energy a darllenodd KB y manylion i'r Fforwm. Roedd pryder o hyd am ran o'r llwybr sydd ar y ffordd.
- **Adroddiadau Parcmyn** - Roedd KB wedi cyfarfod ag Alan Warner, Rheolwr Gweithrediadau Cefn Gwlad CSC er mwyn trafod darparu gwybodaeth ynghylch gwaith cynnal a chadw/gwelliannau.

Eitem 5 Ad-drefnu Gwasanaeth Cefn Gwlad CSC – Diweddariad – Rory Dickinson, Rheolwr yr Arfordir a Chefn Gwlad

Esboniodd RD fod angen ad-drefnu oherwydd toriadau i'r gyllideb ond roedd hefyd yn gyfle i adolygu a darparu gwasanaeth mwy hyblyg a mwy 'addas i'r diben.' Ar hyn o bryd roedd gormod o staff cynnal a chadw llawn amser yn cael eu cyflogi yn ystod y gaeaf pan oedd hi'n anoddach gweithio a phrinder staff yn ystod misoedd yr haf pan oedd amodau gwaith yn dda ond byddai'r staff yn treulio'r rhan fwyaf o'r amser yn torri'r gwair. Felly byddai cyflogi mwy o weithwyr tymhorol neu ddefnyddio contractwyr yn cael eu hystyried. Byddai'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn cynnwys 4 Maes Gwasanaeth:

Mynediad i Gefn Gwlad - Map Diffiniol/Gorchmynion Cyfreithiol/Gorfodaeth Cadwraeth a Busnes Cefn Gwlad – Grantiau/Marchnata a Chadwraeth/Bioamrywiaeth
Masnach a Datblygiad Cefn Gwlad - Parc Arfordirol y Mileniwm a Pharc Gwledig Pen-bre
Gweithrediadau Cefn Gwlad – Cynnal a Chadw/Gwelliannau, Rheolaeth Safle.

Dosbarthodd JT daflen yn cynnwys manylion pellach am feysydd gwasanaeth. Roedd y swyddi yn y gwasanaeth a ad-drefnwyd wedi'u neilltuo ar gyfer staff presennol y Gwasanaeth Cefn Gwlad.

Gofynnodd JG am gynyddu incwm o Barc Arfordirol y Mileniwm. Dywedodd RD fod cyfleoedd i gynyddu incwm ar gyfer y Cyngor yn cael eu hystyried. Er enghraifft byddai Gŵyl Cefn Gwlad Cymru yn cael ei chynnal ym Mharc Gwledig Pen-bre ym mis Mehefin.

Gofynnodd JG a ellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch Parc Arfordirol y Mileniwm. Dywedodd RD y bydd gan y Parc wefan bwrpasol.

Gofynnodd KB am drefniadau cynnal a chadw yn y dyfodol pan fydd llai o Rodwyr Mynediad ac a fyddai'r Cynghorau Tref/Cymuned yn dymuno gofalu am eu hawliau tramwy cyhoeddus eu hunain. Er enghraifft, roedd Cyngor Cwarter Bach wedi mynegi dymuniad i gynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus yn ei ardal. Dywedodd RD y byddai'r holl ddewisiadau'n cael eu hystyried. Ar ôl cwblhau'r ad-drefnu, bydd RD yn dod ag aelodau'r Tîm Cefn Gwlad newydd i gyfarfod y Fforwm yn y dyfodol.

Dywedodd RD ei fod yn ystyried 'cefn gwlad' fel y ganolfan hamdden orau sydd gennym yn y sir a'r nod oedd cael mwy o bobl i fod yn fwy egniol yn amlach. Yn ogystal, roedd angen adfywio'r Parciau Gwledig a oedd heb newid fawr ers y 60au.

RD

<p>Nododd CE nad oedd hi'n glir ble oedd y Ganolfan Groeso yn y Ganolfan Ddarganfod ac nad oedd unrhyw un gweladwy wrth y ddesg yno. Dywedodd RD fod y ddesg yn rhy uchel ac felly nad oedd modd gweld rhywun yn eistedd yno.</p> <p>Esboniodd JT (Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad CSC) strwythur newydd ei dîm Mynediad i Gefn Gwlad. Prif rôl y tîm hwn oedd delio â gorchmynion cyfreithiol, diweddarau'r Map Diffiniol a Datganiad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a chymryd camau gorfodi lle bo angen. Byddai'r Tîm yn cynnwys 5 swydd amser llawn (gan gynnwys JT) ac 1 Cynorthwydd Chwiliadau rhan-amser. Ar hyn o bryd, roedd y tîm yn cynnwys 3 aelod o staff amser llawn ac 1 aelod o staff rhan-amser.</p>	
<p>Eitem 6 Gwelliannau o ran Gwaith Grant ROWIP/AGP – cyflwyniad - KB</p> <p>Cyflwynwyd sioe sleidiau gan KB yn dangos lluniau cyn ac ar ôl y gwelliannau i hawliau tramwy cyhoeddus yn y sir gan bwysleisio bod angen i'r Gwasanaeth Cefn Gwlad hyrwyddo a marchnata'r gwaith da y mae'n ei wneud i'r cyhoedd ac yn fewnol o fewn y Cyngor.</p> <p>Dywedodd KB y byddai'n fuddiol petai'r Map Diffiniol ar gael ar-lein. Cytunodd JT a dywedodd fod hwn yn un o'r materion fyddai'n cael ei ddatblygu pan fyddai'r broses ad-drefnu wedi'i gwblhau a'r tîm yn gyflawn. Cytunodd GW o Gerddwyr Dinefwr a dywedodd fod gan nifer o awdurdodau lleol eu system mapio Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar-lein ac roedd rhai yn cynnwys ffordd o roi gwybod am broblemau ar-lein hefyd. Dywedodd JG fod mapiau o ardaloedd Brechfa a Llanllwni ar gael ar-lein. Enwyd Sir y Fflint a Cheredigion fel enghreifftiau o awdurdodau lleol â mapiau hawliau tramwy cyhoeddus ar gael ar-lein.</p> <p>Dywedodd GW fod y Cerddwyr yn ad-drefnu yng Nghymru a GW oedd â'r dasg o gael y grwpiau amrywiol yn Sir Gaerfyrddin i ddiffinio eu hardaloedd. Roedd GW hefyd yn ceisio ailddechrau grwpiau gwaith gwirfoddol y Cerddwyr.</p>	<p>JT</p>
<p>Eitem 7 Hawliau Tramwy Cyhoeddus 'Hawdd eu Defnyddio' - Canlyniadau'r Arolwg - JT</p> <p>Rhoddodd JT ganlyniadau arolwg blynyddol rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ar gyfer 2013-14. Roedd yr arolwg yn seiliedig ar hap sampl o 5.82% o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Cafwyd bod 41.4% yn Agored, yn Hygyrch ac wedi'u Llofnodi ac felly bernir eu bod yn 'hawdd eu defnyddio'. Dosbarthwyd copïau o ganlyniadau'r arolwg a siart yn dangos y tuedd gynyddol dros y degawd diwethaf i'r aelodau.</p> <p>Gofynnodd KB a JG sawl llwybr ceffylau oedd yn rhan o'r arolwg. Dywedodd JT nad oedd y wybodaeth honno ganddo wrth law ond y gellid ei darparu.</p>	
<p>Eitem 8 Diweddariad Cyffredinol – Cynllun Gwella Hawliau Tramwy/Deddfwriaeth/Teithio Llesol - JT</p> <p>Cyfeiriodd JT at Ddatganiad Ysgrifenedig John Griffith (y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon)– Mynediad a Hamdden Awyr Agored a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Esboniai ganlyniad yr arolwg a gynhaliwyd sef y byddai Papur Gwyrdd yn cael ei gyhoeddi ond ni nodwyd terfyn amser. Fodd bynnag, ni fyddai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno yn ystod tymor presennol y Cynulliad na fydd yn dod i ben tan 2016.</p>	

Eitem 9 Unrhyw Fater Arall

- **Llwybrau Eraill â Mynediad Cyhoeddus** – Dywedodd MH ei fod wedi tynnu sylw Gwasanaethau Stryd CSC (yr is-adran briffyrdd) at nifer o anghysonderau. O ganlyniad i waith MH, cytunodd y Gwasanaethau Stryd i ychwanegu'r Heol Rufeinig sydd i'r de-ddwyrain o Lanymddyfri ger Hafod Fawr ac ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog at y Rhestr o Strydoedd.
- **Y Cynghorydd Deryk Cundy** – cyflwynodd ei hun ac esboniodd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau. Roedd yn rhaid i CSC ddod o hyd i arbedion yn sgil toriadau sylweddol yn y gyllideb. Felly, roedd yn rhaid i'r Cyngor edrych ar y modd roedd yn darparu gwasanaethau a nodi ffyrdd y gallai gynyddu refeniw. Roedd hi'n bwysig bod pobl yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r materion hyn ac roedd y Cynghorydd wedi gwerthfawrogi'r cyfle i fynychu'r cyfarfod hwn er mwyn cael cipolwg ar waith y Fforwm Mynediad Lleol. Cytunodd y Cynghorydd Cundy fod angen llinellau cyfathrebu clir rhwng y Fforwm Mynediad Lleol, cynrychiolwyr etholedig a rheolwyr/swyddogion y Cyngor. Roedd ffynonellau gwybodaeth ar-lein megis 'Darganfod Sir Gâr' a'r cyfleuster newydd 'Lleol-i' yn hanfodol o ran galluogi pobl i weld y cyfleusterau, yr amwynderau a'r cyfleoedd lleol ar garreg eu drws.
- **Gyriant Google a rennir** – dywedodd JG y byddai'n sefydlu gyriant a rennir ar-lein a allai gael ei ddefnyddio gan y Fforwm Mynediad Lleol.
- **Cynghorau Tref/Cymuned** – cafwyd trafodaeth ynghylch sut y gellid sefydlu cysylltiadau rhyngddynt a'r Fforwm Mynediad Lleol.

JG

Eitem 10 Dyddiad/Lleoliad y Cyfarfodydd Nesaf

Cynhelir pob cyfarfod ar ddydd Iau am 6pm yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin fel a ganlyn:

20^{fed} Tachwedd 2014